Mumbles Community Council

# Minutes of Meeting of the Environmental Committee held on 28 April 2025 at 6.30 pm via Teams

**Councillors Present:** Carrie Townsend Jones (Chair), Rebecca Fogarty and Helen Nelson

**Officers Present:** Ian Hughes – CSO

**EN2504-01** **Apologies:** Cllrs Phil Keeton (Vice Chair) and Sara Keeton,

**EN2504-02** **Declarations of Interest:** None

**EN2504-03** **Minutes of Previous Meeting of the Committee**

To approve the minutes of the meeting held on 31st March 2025 as a true record.

The Chair, Cllr Townsend Jones noted the misspelling of Cllr Sara Keeton's name which was subsequently amended by CSO.

**RESOLVED** to approve the minutes of the meeting held on 31st March 2025 as a true record.

**EN2504-04** **Actions arising from Previous Meetings**

The CSO updated the committee on all outstanding actions having previously circulated the full list of outstanding 'actions' to committee members. Discussions took place on a number of outstanding and proposed new actions.

**RESOLVED:** Outstanding actions updated and shown as complete where appropriate; details recorded in 'action' report, together with newly created actions.

**EN2504-05** **Budget Monitoring Reports to 28/02/2025 - Paul Beynon, RFO**
Reports attached.

Financial reports prepared by RFO, Paul Beynon had previously been provided to Committee members.

No queries were raised with RFO or CSO prior to the meeting.

A discussion took place in relation to transferring existing funds to the next financial year (2025/26) in particular £20,000 set aside for The Castle Woods and Washinghouse Brook Paths and the Climate Emergency Budget in relation to flood awareness schemes for next year.
Following the successful completion of Jubilee Gardens further work will be carried out in relation to wildlife planting.

**RESOLVED:** to approve the budget monitoring report to 28th February 2025.

**RESOLVED:** to approve the Environmental Committee Income Transactions to 28th February 2025.

**EN2504-06** **Environment Officer - Monthly Report on current projects and overview:**
Summary of previous months activity and next steps for May. Report attached.

Robert Hernando, The Environmental and Sustainability Engagement Officer had previously provided his monthly report to committee members. No queries were raised with either The Clerk or CSO prior to the meeting

Robert briefly outlined his report which consisted of the following points: -

- The successful completion of The Jubilee Gardens Development which was opened on 28.4.25
- Crop Collection (Subject to Agenda Item **EN2504-07** below)
- Norton Nature Reserve Volunteer Day on 24.4.25
- City Nature Challenge on 25.4.25
- Volunteering Events predominantly detailed under Agenda Item **EN2504-10** below)
- Robert and others from MCC will be attending The One Voice Wales Award Ceremony when MCC will be competing for The Green Flag Award in relation to The Jubilee Gardens Development

With regard to The City Nature Challenge this was poorly attended despite being advertised extensively through social media. Consideration to be given to liaising with schools for future events.

**RESOLVED:** That in future, events such as The City Nature Challenge will form part of the newly created MCC Calander of Events, thereby maximising the potential for public participation through avoidance of events coinciding and utilising advertising, including MCC Website and liaison with partners such as schools.

**EN2504-07** **Mumbles Crop Collective**

Documents pertaining to Mumbles Crop Collective had been circulated to members prior to the meeting.

Robert Hernando outlined that the original plans for a Mumbles Crop Collective are very ambitious and that during the initial year plans needed to be curtailed. Norton Nature Reserve was identified as a key site where additional raised beds will be added, and that hand tools and seeds had been purchased.

During the discussion that followed it was agreed that the remit of the Crop Collective should be manageable due to other projects having recently been completed including Jubilee Gardens and ongoing initiatives. A couple of beds at Ostreme would be valuable in drawing the attention of the wider public to the initiative and signposts could be considered for directing the public to the Norton Nature Reserve.

It was noted that whilst public parks would not be appropriate for sites, volunteers could be recruited through contact with allotment societies and targeting those on waiting lists.

A provisional date of 24th May 2025 was proposed for launching Mumbles Crop Collective and seedlings should be prepared ahead of the launch

**ACTION:** Robert Hernando to e-mail all relevant councillors and request details of any seeds to be purchased including winter varieties for the purpose of producing seedlings ready for the launch of the project.

**EN2504-08** **Mumbles Buzz and Bloom**

Robert Hernando stated that posters and nomination leaflets are prepared and will be distributed within one week.

During the discussion that followed small postcard size forms are also being produced to post through the letterboxes of potential participants. In addition, Robert will check on the availability of an undated banner from previous years to assist with publicity.

**ACTION:** Robert Hernando to check whether a suitable banner exists to assist with publicity.

**EN2504-09** **Climate Emergency Action Update**

The Chair, Cllr Townsend Jones outlined that this will be progressed during the forthcoming financial year and that Robert Hernando had already liaised with The RFO in relation to budget considerations with a workshop being the next criteria.



Draft

Cllr Nelson lost contact with the meeting at 7.12pm which was not quorate as a consequence

EN2504-10 **Litter Free Zones and Monthly Litter Pick Dates**

A discussion took place on the suitability of expanding the success of the litter picks with no decisions being made due to not being quorate. The success of a previous pick which coincided with a West Cross Warm Hub illustrated the benefits of including other events such as youth clubs and schools. Other suitable organisations mentioned included The DVLA, Brownies, The Scouts and The Church. Any decisions postponed to May Meeting when consideration will be given to Councillors who are school governors liaising with their respective schools on the matter.

EN2504-11 **Plant Swap Shop**

Cllr Nelson rejoined the meeting, making it again quorate.

The Chair, Cllr Townsend Jones outlined that this event will take place at Norton Nature Reserve and a discussion on a suitable date ensued.

**RESOLVED**: To provisionally reserve the 14th June 2025 as a suitable date to host the Plant Swap Shop at Norton Nature Reserve,

EN2504-12 **Review of Environmental Programmes 2024/25**

All committee members in agreement with The Chair's (Cllr Townsend Jones) assessment that despite a few delays in some instances all objectives formulated at the start of the financial year had either been accomplished or had been significantly progressed.

In addition, Cllr Nelson informed the committee that she had been contacted by the Chair of The Friends of Clyne Association who had informed her that the foundations for the Gazebo Shelter, partly funded through MCC, had been laid and that its opening is anticipated in May or June 2025 to which representatives of MCC will be invited.

**Meeting ended at 7.25pm.**

**Next Meeting 2nd June 2025**

Llofnodwyd gan y cadeirydd

Draft

# Cofnodion cyfarfod Pwyllgor yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2025 am 6.30pm drwy gyfrwng Microsoft Teams

Draft

**Cynghorwyr yn bresennol:** Carrie Townsend Jones (Cadeirydd), Rebecca Fogarty a Helen Nelson

**Swyddogion yn bresennol:** Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**EN2504-01** **Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Phil Keeton (Is-gadeirydd) a Sara Keeton,

**EN2504-02** **Datganiadau o fuddiant:** Dim

**EN2504-03** **Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2025 fel cofnod cywir.

Nododd y Cadeirydd, y Cynghorydd Townsend Jones, gamsillafiad yn enw'r Cynghorydd Sara Keeton a gafodd ei ddiwygio wedi hynny gan y Swyddog Cymorth Pwyllgorau.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2025 fel cofnod cywir.

**EN2504-04** **Camau'n codi o gyfarfodydd blaenorol**

Rhoddodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am yr holl gamau gweithredu a oedd heb eu cwblhau ar ôl dosbarthu'r rhestr lawn o 'gamau gweithredu' a oedd heb eu cwblhau i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol. Cafwyd trafodaethau ar nifer o gamau gweithredu a oedd heb eu cwblhau, a chamau gweithredu newydd arfaethedig.

**PENDERFYNWYD:** Diweddaru'r camau gweithredu heb eu cwblhau a'u dangos fel rhai sydd wedi'u cwblhau lle bo'n briodol; cofnodi'r manylion yn yr adroddiad 'camau gweithredu', ynghyd â chamau gweithredu newydd eu creu.

**EN2504-05** **Adroddiadau monitro'r gyllideb hyd at 28 Chwefror 2025 – Paul Beynon, Swyddog Ariannol Cyfrifol**
Adroddiadau wedi'u hatodi.

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, wedi'u darparu i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol.

Ni chodwyd unrhyw gwestiynau gyda'r Swyddog Ariannol Cyfrifol na'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau cyn y cyfarfod.

Cynhaliwyd trafodaeth mewn perthynas â throsglwyddo cronfeydd presennol i'r flwyddyn ariannol nesaf (2025/2026) yn benodol £20,000 a neilltuwyd ar gyfer Coed y Castell a Llwybrau Nant y Golchdy a'r gyllideb argyfwng hinsawdd mewn perthynas â chynlluniau ymwybyddiaeth llifogydd ar gyfer y flwyddyn nesaf.
Yn dilyn cwblhau Gerddi Jiwbilî yn llwyddiannus, bydd gwaith pellach yn cael ei wneud mewn perthynas â phlannu ar gyfer bywyd gwyllt.

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb tan 28 Chwefror 2025.

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo Trafodion Incwm Pwyllgor yr Amgylchedd hyd at 28 Chwefror 2025.

**EN2504-06** **Swyddog yr Amgylchedd – adroddiad misol ar brosiectau cyfredol a throsolwg:**
Crynodeb o weithgarwch y misoedd blaenorol a'r camau nesaf ar gyfer mis Mai.
Adroddiad wedi'i atodi.

Roedd Robert Hernando, y Swyddog Ymgysylltu Amgylcheddol a Chynaliadwyedd wedi darparu ei adroddiad misol i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol. Ni chodwyd unrhyw ymholiadau gyda'r clerc na'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau cyn y cyfarfod

Amlinellodd Robert ei adroddiad yn fyr a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol: -

- Cwblhau datblygiad Gerddi Jiwbilî yn llwyddiannus a agorwyd ar 28 Ebrill 2025
- Casglu Cnydau (Yn amodol ar eitem agenda **EN2504-07** isod)
- Diwrnod Gwirfoddolwyr Gwarchodfa Natur Norton ar 24 Ebrill 2025
- Her Natur y Ddinas ar 25 Ebrill 2025
- Digwyddiadau gwirfoddoli a nodir yn bennaf o dan eitem agenda **EN2504-10** isod)
- Bydd Robert ac eraill o Gyngor Cymuned y Mwmbwls yn mynychu seremoni wobrwyo Un Llais Cymru wrth i Gyngor Cymuned y Mwmbwls gystadlu am wobr y Faner Werdd mewn perthynas â datblygiad Gerddi Jiwbilî

O ran Her Natur y Ddinas, nid oedd llawer o bobl yn bresennol, er gwaethaf cael ei hysbysebu'n helaeth drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Dylid ystyried cysylltu ag ysgolion ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:** Yn y dyfodol, bydd digwyddiadau fel Her Natur y Ddinas yn rhan o galendr digwyddiadau newydd Cyngor Cymuned y Mwmbwls, a thrwy hynny'n hybu'r cyhoedd i gymryd rhan trwy osgoi digwyddiadau sy'n cyd-daro a defnyddio hysbysebu,

gan gynnwys gwefan Cyngor Cymuned y Mwmbwls a chysylltu â phartneriaid fel ysgolion.

**EN2504-07** **Cydweithfa Cnydau'r Mwmbwls**

Roedd dogfennau yn ymwneud â Chydweithfa Cnydau'r Mwmbwls wedi'u dosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod.

Amlinellodd Robert Hernando fod y cynlluniau gwreiddiol ar gyfer Cydweithfa Cnydau'r Mwmbwls yn uchelgeisiol iawn a bod angen cwtogi ar gynlluniau yn ystod y flwyddyn gyntaf. Nodwyd Gwarchodfa Natur Norton fel safle allweddol lle bydd gwelyau uchel ychwanegol yn cael eu hychwanegu, a bod offer llaw a hadau wedi'u prynu.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cytunwyd y dylai cylch gwaith y Gydweithfa Cnydau fod yn hawdd ei drin oherwydd bod prosiectau eraill wedi'u cwblhau'n ddiweddar gan gynnwys Gerddi Jiwbilî a mentrau parhaus. Byddai cwpl o welyau yng Nghanolfan Ostreme yn werthfawr wrth dynnu sylw'r cyhoedd ehangach at y fenter, a gellid ystyried arwyddion i gyfeirio'r cyhoedd at Warchodfa Natur Norton.

Nodwyd, er na fyddai parciau cyhoeddus yn briodol ar gyfer y safleoedd, y gellid recriwtio gwirfoddolwyr drwy gysylltu â chymdeithasau rhandiroedd a thargedu'r rheini ar restrau aros.

Cynigiwyd y dyddiad 24 Mai 2025 dros dro ar gyfer lansio Cydweithfa Cnydau'r Mwmbwls a dylid paratoi eginblanhigion cyn y lansiad

**CAM GWEITHREDU:** Robert Hernando i e-bostio'r holl gynghorwyr perthnasol, a gofyn am fanylion unrhyw hadau i'w prynu gan gynnwys mathau ar gyfer y gaeaf at ddiben cynhyrchu eginblanhigion yn barod ar gyfer lansio'r prosiect.

**EN2504-08** **Su'r Mwmbwls yn ei Blodau**

Dywedodd Robert Hernando fod posteri a thaflenni enwebu wedi'u paratoi a byddant yn cael eu dosbarthu o fewn wythnos.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, mae ffurflenni bach maint cerdyn post hefyd yn cael eu cynhyrchu i'w postio drwy ddrysau cyfranogwyr posibl. Yn ogystal, bydd Robert yn gwirio a oes baner heb ddyddiad o'r blynyddoedd blaenorol ar gael i gynorthwyo gyda chyhoeddusrwydd.

**CAM GWEITHREDU:** Robert Hernando i wirio a oes baner addas yn bodoli i gynorthwyo gyda chyhoeddusrwydd.

**EN2504-09** **Diweddariad gweithredu ar yr argyfwng hinsawdd**

Amlinellodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Townsend Jones, y bydd hyn yn cael ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn ariannol sydd i ddod, a bod Robert Hernando eisoes wedi cysylltu â'r

Swyddog Ariannol Cyfrifol mewn perthynas ag ystyriaethau cyllidebol gyda gweithdy yn flaenoriaeth nesaf o blith y meini prawf.

Collodd y Cynghorydd Nelson gysylltiad â'r cyfarfod am 7.12pm ac o ganlyniad nid oedd cworwm

EN2504-10 **Parthau di-sbwriel a dyddiadau casglu sbwriel misol**

Cynhaliwyd trafodaeth ar addasrwydd ehangu llwyddiant y casgliadau sbwriel heb wneud unrhyw benderfyniadau oherwydd diffyg cworwm. Dangosodd llwyddiant y casglu blaenorol a ddigwyddodd yr un pryd â Chanolfan Clyd West Cross fanteision cynnwys digwyddiadau eraill fel clybiau ieuenctid ac ysgolion. Roedd sefydliadau addas eraill a grybwyllwyd yn cynnwys y DVLA, y Brownis, y Sgowtiaid a'r eglwys. Gohiriwyd unrhyw benderfyniadau tan gyfarfod mis Mai pan roddir ystyriaeth i gynghorwyr sy'n llywodraethwyr ysgolion yn cysylltu â'u hysgolion priodol ar y mater.

EN2504-11 **Siop cyfnewid planhigion**

Ymunodd y Cynghorydd Nelson â'r cyfarfod eto, gan sicrhau cworwm unwaith eto.

Amlinellodd y cadeirydd, y Cynghorydd Townsend Jones, y byddai'r digwyddiad hwn yn digwydd yng Ngwarchodfa Natur Norton a chafwyd trafodaeth am ddyddiad addas.

**PENDERFYNWYD**: Cadw 14 Mehefin 2025 dros dro fel dyddiad addas i gynnal y Siop Cyfnewid Planhigion yng Ngwarchodfa Natur Norton,

EN2504-12 **Adolygiad o raglenni amgylcheddol 2024/2025**

Roedd holl aelodau'r pwyllgor yn cytuno ag asesiad y cadeirydd (y Cynghorydd Townsend Jones) sef, er gwaethaf ychydig o oedi mewn rhai achosion, fod yr holl amcanion a luniwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol naill ai wedi'u cyflawni neu wedi'u symud ymlaen yn sylweddol.

Yn ogystal, hysbysodd y Cynghorydd Nelson y pwyllgor fod cadeirydd Cymdeithas Cyfeillion Clun wedi cysylltu â hi, a'i bod wedi'i hysbysu bod y sylfeini ar gyfer y lloches gasebo, a ariennir yn rhannol gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls, wedi'u gosod a'i bod yn debygol o agor ym mis Mai neu fis Mehefin 2025, ac y byddai cynrychiolwyr Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn cael eu gwahodd iddo.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.25pm.**

**Cyfarfod Nesaf 2 Mehefin 2025**

Llofnodwyd gan y cadeirydd

Drafft

Llofnodwyd gan y cadeirydd